**Ymweld Ysbyty fel Gofalwr**
**(Pamffled)**
**Cefnogi John's Campaign**

Os rydych yn gofalu am rhywun sydd yn ysbyty ar hyn o bryd, mae'n teimlo'n amser pryderus dros ben. Mae Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn ymrwymo i gefnogi ymweld a chydweithio gyda gofalwyr drwy ***'John's Campaign'*.**
Mae'n bwysig i ni eich cynnwys mewn gofal person pan yn briodol i wneud. Wrth gysidro nad yw hi'n bosib i rhai pobl wneud penderfyniadau, byddwn o hyd yn gofyn i'r person os mae nhw'n hapus i perthynas neu ffrind fod yn rhan.
**Rhowch wybod i aelod o staff eich bod yn ofalwr ar y person rydych yn ymweld.**

## Beth yw John's Campaign?

Mae John's Campaign yn adnabod y pwysigrwydd o gynnwys gofalwyr sydd yn dymuno cefnogi pobl sydd gyda dementia tra mae nhw'n yr ysbyty. Fel gofalwr, mae'r hawl gyda chi i ofyn i fod yn rhan.

## Ydw i'n gallu aros efo rhywun tra eu bod yn yr ysbyty?

Os mai chi yw'r prif gofalwr, mae'r hawl gyda chi i ofyn i aros gyda person o dan eich gofal drwy gydol a dydd neu nos. Er hynny, deallwn nad yw hyn yn bosib i phob gofalwr a nid dylai gael ei gweld fel eich cyfrifoldeb. Rydyn ni'n trio bod mor hyblyg a phosib i chi ymweld ar eich amser dewisol, ond nid yw hyn yn bosib pob tro. Mi eglurith staff y ward i chi.

Mae'n bosib aros dros nôs mewn achosion arbennig os mae cynllun gofal unigolyn yn dangos bydd hyn o fudd. Rhaid i hyn gael ei drafod gyda'r prif-nyrs. Os mae cynllun gofal y person yn nodi bydd person yn aros dros nôs yn fudd, nid oes bosib cadarnhau bod gwely am fod ar gael, ond mi fydd cadair wrth y gwely yno.

## Beth os ydw i angen ymweliadau hyblyg tu hwnt i oriau ymweld y ward?

Er gall trefniadau ymweliadau hyblyg eu gwneud, efallai bydd amseroedd lle mae mynediaid i ward wedi'i gyfyngu i amddiffyn cleifion ac ymwelwyr, megis yn ystod pandemig. Os, fel gofalwr, rydych angen trefniadau ymweliadau hyblyg, siaradwch gyda'r prif-nyrs.

## Ydw i'n gallu bod yn rhan o drafodaethau a penderfyniadau am y person o dan fy ngofal?

Fel gofalwr sydd yn nabod y person yn dda, mae trafodaethau gyda chi'n werthfawr i'r asesiad, triniaeth, a trefniadau rhyddhau yn y dyfodol. Mae rhannu eich dealltwriaeth chi o'r person, fel esiamplbeth mae nhw'n eu hoffi neu ddim, eu trefn arferol, unrhyw trafferthion iaith neu cyfathrebu, yn helpu tîm y ward i ddeall y person ac eu anghenion.

Gall gofalwyr helpu gynrychioli gofynion, gwerthoedd, a beth sydd yn bwysig i berson os nad ydy nhw'n gallu gwneud ei hunain. Gall ofalwyr gefnogi cyfathrebu drwy gwblhau dogfen 'Dyma fi' fel esiampl. Mae copi o'r dogfen 'Dyma fi' ar ein gwefan ar y we: [Dementia - Aneurin Bevan University Health Board (nhs.wales)]

Mae cyfrinachedd a caniatad yn hanfodol cyn rhannu gwybodaeth am gofal a thriniaeth person. Gall tîm y ward siarad gyda chi am y gwybodaeth mae nhw'n gallu rhannu.

## Sut ydw i'n gallu parhau i gefnogi y person dw i'n gofalu am tra eu bod yn yr ysbyty?

Mae nifer o gofalwyr yn dymuno parhau gofalu am rhywun tra eu bod yn yr ysbyty. Rydyn yn annog gofalwyr i drafod gyda tîm y ward y fath o gefnogaeth hoffwch chi gynnig yn ystod derbyn person a cytuno ar sut allwch fod yn rhan.

Rydyn ni'n deall bod rhai pobl sydd yn byw gyda dementia angen cefnogaeth wrth fwyta ac yfed ac yn aml yn bwyta ac yfed yn well gyda pobl mae nhw'n nabod yno. Bydd cefnogaeth o gwmpas adegau bwyta yn fudd enfawr.

## Beth dw i angen cysidro cyn ymweld?

Gadewch i staff wybod pan rydych yn cyrraedd a gadael y ward. Dilynwch cyfarwyddiadau y wardiau am leihau y lledaeniad haint, gan gynnwys gwisgo gorchudd y gwyneb a golchi'ch dwylo cyn ymweld ac wrth adael.
Rydyn ni'n gofyn i gofalwyr ac ymwelwyr barchu anghenion pobl eraill. Gall hyn gynnwys gadael ochr gwely'ch perthynas am hyd os mae nyrs, neu aelod arall o'r tîm clinigol, yn gofyn.

Gwiriwch gyda tîm y ward os rydych yn dymuno dod a rhywbeth mewn i'r person rydych yn ymweld. Gall hyn gynnwys bwyd, diod, teclynnau electroneg ayyb.

Gadewch i nyrs wybod am unrhyw pryderon am eich perthynas.

## Beth os dw i methu ymweld ond dal eisiau cadw mewn cyswllt?

Os nad ydych yn gallu ymweld, gadewch i staff y ward wybod. Bydd hyn yn helpu ni gytuno ar sut a pryd byddwch chi'n derbyn diweddariadau a beth gall ei rhoi mewn lle i helpu chi gadw mewn cyswllt gyda'r person rydych yn gofalu am.

## Bydd parcio ar gael i mi'n yr ysbyty?

Mae parcio am ddim ar gael ym mhob safle ysbyty ni.

## Bydd mynediad i gyfleusterau megis cantin yr ysbyty ar gael i mi?

Siaradwch gya tîm y ward am gyfleusterau'r ysbyty rydych yn ymweld, gan efallai eu bod nhw'n wahanol ar pob safle.

## Beth os dw i angen cefnogaeth?

Rydym yn gwybod bod pob gofalwyr yn cymryd ymlaen cyfrifoldeb enfawr wrth ofalu am anwylyd. Fel gofalwr, mae hawl gyda chi i asesiad o'ch anghenion. Am gefnogaeth gyda hyn, ffoniwch y Care Collective ar 01495 367564 neu ebostiwch gwentcarershub@ctsew.org.uk  i weld sut fath o gefnogaeth sydd ar gael i chi.

Os hoffwch fwy o wybodaeth am John's Campaign, cliciwch ar y ddolen: John's Campaign (johnscampaign.org.uk)

*Mae BIPAB yn ymrwymo i wella gofal a phrofiad cleifion a gofalwyr pobl gyda Dementia.*